# Deisebau

17 Chwefror 2021

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 22 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

*Rwy'n gofyn am gopïau digidol o'r holl e-ddeisebau a deisebau papur gan gynnwys neu'n ymwneud â'r telerau a ganlyn, rhwng 2010 a 2020, yn gynwysiedig:*

- *Bywyd Gwyllt*
- *Cadwraeth*
- *Natur*
- *Ceirw (Cervidae)*
- *Cathod domestig (Felis catus)*
- *Cathod gwyllt (Felis silvestris grampia)*
- *Lyncs (Lynx lynx)*
- *Afancod (Castor fiber)*
- *Dad-ddofi*
- *Moch Daear (meles meles)*
- *Llwynogod (Vulpes vulpes)*
- *Rhywogaethau goresgynnol*
- *Parakeet (Psittacula krameria)*
- *Jac y Neidiwr (Impatiens glandulifera)*
- *Gwenyn(en)*
- *Plaladdwyr*

*Ar gyfer pob deiseb a nodwyd, gofynnaf am y data a ganlyn hefyd:*

- *A gyhoeddwyd pob deiseb*

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

- *Nifer y llofnodion*
- *A drafodwyd y ddeiseb*
- *Trawsgrifiadau digidol o drafodaethau'n ymwneud â phob deiseb*
- *P'un a wrthodwyd pob deiseb neu a gymerwyd camau*
- *Pa gamau, os o gwbl, a gymerwyd mewn ymateb i ddeiseb*

Mae'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani eisoes wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan ac mae manylion am y lincs sydd eu hangen arnoch i'w gweld isod.

Gan fod y wybodaeth hon ar gael eisoes, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Gellir gweld yr holl ddeisebau a gafwyd ac a gyhoeddwyd yn ystod amserlen eich cais ar wefan y Senedd. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddeisebau papur oherwydd maent yn cael eu cyhoeddi ar-lein pan gânt eu cyfeirio at y Pwyllgor Deisebau i'w hystyried.

Gellir gweld hanes llawn y penderfyniadau a'r camau a gymerwyd ar ddeiseb drwy'r linc '*Rhagor o wybodaeth am drafodaethau'r Pwyllgor Deisebau ynghylch y ddeiseb hon*' ym mhob deiseb.

Gellir chwilio pob deiseb a ystyriwyd ers mis Mai 2016 yma: **https://deisebau.senedd.cymru/deisebau?state=all** Bydd hefyd yn dangos yr holl ddeisebau a wrthodwyd ers 30 Ebrill 2020, pan lansiwyd gwefan ddeisebau newydd y Senedd.

Gellir chwilio deisebau a ystyriwyd gan y Pwyllgor Deisebau cyn mis Mai 2016 yma: **https://deisebau.senedd.cymru/deisebau?state=archived**

*Sylwch nad yw'r 'Dyddiad cwblhau' a ddangosir yn y canlyniadau chwilio ar gyfer deisebau wedi'u harchifo yn gywir ym mhob achos oherwydd problem data y daethpwyd ar ei draws wrth fudo data i'r wefan ddeisebau newydd. Gellir dod o hyd i'r dyddiadau cywir drwy glicio ar 'Rhagor o wybodaeth am drafodaethau'r Pwyllgor Deisebau ynghylch y ddeiseb hon' mewn deiseb benodol.*

Gellir gweld deisebau a wrthodwyd cyn 30 Ebrill 2020 yma: **https://business.senedd.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=28231**

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF